WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o ‘Datblygu a lansio Gweledigaeth Trafnidiaeth ac Aer Glân newydd ar gyfer y Ddinas’ – **Cyngor Caerdydd**


Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1376A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol gan Gyngor Caerdydd yn rhan o waith a gyflawnwyd/gyflawnir yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru nac mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu weithiwr arall yn eu rhinwedd unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â’r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio’r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Roedd y tîm a gyflwynodd y gwaith yn cynnwys Jeff Brown a Ron Price o dan gyfarwyddyd Sara-Jane Byrne.

# Cynnwys

Mae’r Cyngor wedi ymgorffori’r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei ddull o ddatblygu’r weledigaeth ar gyfer Trafnidiaeth ac Aer Glân yng Nghaerdydd.

Nawr, mae angen i’r Cyngor sefydlu dealltwriaeth a chymhwysiad cyson o’r egwyddor a’r pum ffordd o weithio yn ei ymdrechion i wella canlyniadau ar gyfer ei ddinasyddion.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Rhan Un: Canfyddiadau’r Archwiliad 6

Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o’r angen presennol ac yn y dyfodol. Er hynny, dylai effaith bosibl y Metro a blaenoriaethau eraill y Cyngor gael eu cynnwys wrth ystyried unrhyw ymyriadau hirdymor 6

Mae gweithgarwch atal yn ganolog i’r Papur Gwyrdd ac mae targedau wedi eu sefydlu i fonitro effaith atebion ac ymyriadau ataliol 7

Caiff yr egwyddor datblygu cynaliadwy ei hintegreiddio’n glir ym mlaenoriaethau polisi’r Cyngor sy’n canolbwyntio ar faterion iechyd cyhoeddus argyfyngus ac atebion trafnidiaeth gynaliadwy, ond mae lle i gryfhau ei ddull o integreiddio, er enghraifft gyda chynghorau cyfagos. 8

Mae’r Cyngor yn cydweithio â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus partner er mwyn datblygu atebion hirdymor ar gyfer teithio llesol ac iechyd y cyhoedd. Byddai’r Cyngor yn elwa wrth gyflwyno dull tebyg o gydweithio â Chynghorau Prifddinas-Ranbarth eraill 9

Cynhaliwyd proses ymgynghori helaeth ac annibynnol sydd wedi ei hariannu’n dda gydag ymateb arwyddocaol i’r ‘Syniadau Mawr’. Er hynny, mae lle i gynnwys holl amrywiaeth y dinasyddion yn fwy eglur wrth gynllunio ymyriadau 10

Rhan Dau: Ymateb Cyngor Caerdydd 11

Atodiadau

Atodiad 1: Dangosyddion Cadarnhaol y Pum Ffordd o Weithio 15

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Pam y cynhaliwyd yr Archwiliad

1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf), mae'n statudol ofynnol bod Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) yn archwilio cyrff cyhoeddus er mwyn asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:

a. bennu amcanion llesiant; ac wrth

b. gymryd camau i'w cyflawni nhw.

Mae'r Ddeddf yn diffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel un sy'n gweithredu mewn modd: '... sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'.

2 Mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu adroddiad ar ei archwiliadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o leiaf flwyddyn cyn pob etholiad y Cynulliad. Mae'n rhaid i'r adroddiad cyntaf o'r fath gael ei gyhoeddi erbyn 2020, cyn etholiad y Cynulliad yn 2021.

3 Yn ystod 2018-19, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal archwiliadau ar draws y 44 o gyrff a gwmpesir gan y Ddeddf i lywio ei adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol.

4 Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad **, Myfyrio ar Flwyddyn Un: Sut mae Cyrff Cyhoeddus wedi Ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**. Daeth i'r casgliad bod cyrff cyhoeddus yn cefnogi egwyddorion y Ddeddf ac yn cymryd camau i newid eu ffordd o weithio.

5 Wrth ddatblygu ein dull o gynnal yr archwiliadau yn ystod 2018-19, fe wnaethom ni ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys drwy ein gwaith treialu yn ystod 2017-18. Buom hefyd yn gweithio'n agos gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

6 Gan fod y gwaith rhagarweiniol ym mlwyddyn un wedi cynnwys ystyried y ffordd y mae cyrff cyhoeddus wedi pennu eu hamcanion llesiant, prif bwyslais y gwaith hwn yw'r modd y mae cyrff cyhoeddus yn cymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant.

7 Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar waith maes a gynhaliwyd gennym yn ystod y cyfnod Chwefror 2019 i Fawrth 2019.

8 Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau o'n harchwiliad Datblygu a lansio Gweledigaeth Trafnidiaeth ac Aer Glân newydd ar gyfer y Ddinas, sef cam y mae'r Cyngor yn ei gymryd i gyflawni ei amcanion llesiant.

9 Mae hefyd yn nodi ymateb cychwynnol y Cyngor i'n canfyddiadau.

## Yr hyn a archwiliwyd gennym

10 Archwiliwyd i ba raddau y mae’r Cyngor yn gweithredu yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu a lansio Gweledigaeth Trafnidiaeth ac Aer Glân newydd ar gyfer y Ddinas. Roedd cwmpas ein harchwiliad yn cynnwys cyhoeddi Papur Gwyrdd ar Drafnidiaeth ac Aer Glân ym mis Mawrth 2018 a oedd yn cynnwys 18 o ‘syniadau mawr’ ar gyfer dyfodol trafnidiaeth yn y Ddinas. Roedd y Papur Gwyrdd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus tri mis.

11 Er mwyn gweithredu’n unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy, mae’n rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y ‘ffyrdd o weithio’ canlynol.

### Arddangosyn 1: y ‘pum ffordd o weithio’

Mae’r tabl isod yn nodi’r ‘pum ffordd o weithio’ fel y’u diffinnir yn nogfen **Hanfodion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr Hanfodion**[1] Llywodraeth Cymru.

| Pum Ffordd o Weithio |
|---|
| **Yr hirdymor**<br>Pwysigrwydd cydbwyso’r anghenion tymor byr â’r angen i ddiogelu’r gallu hefyd i fodloni’r anghenion hirdymor. |
| **Atal**<br>Sut y gallai gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried sut y gallai amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o’r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. |
| **Cydweithio**<br>Gweithredu mewn cydweithrediad ag unrhyw unigolyn arall (neu wahanol rannau o’r corff ei hun) a allai helpu’r corff i gyflawni ei amcanion llesiant. |
| **Cyfranogiad**<br>Pwysigrwydd cynnwys y bobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau lles, a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae’r corff yn ei gwasanaethu. |

12 Canfu ein harchwiliad: Bod y Cyngor wedi ymgorffori’r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei ddull o ddatblygu’r weledigaeth ar gyfer Trafnidiaeth ac Aer Glân yng Nghaerdydd. Nawr mae angen i’r Cyngor sefydlu dealltwriaeth a chymhwysiad cyson o’r egwyddor a’r pum ffordd o weithio yn ei ymdrechion i wella canlyniadau ar gyfer ei ddinasyddion.

[1] Llywodraeth Cymru, **Deddf Llesiant Cenedlaethau’r dyfodol (Cymru) 2015 Yr Hanfodion**, 2015

# Adroddiad manwl

## Rhan Un: canfyddiadau'r archwiliad

### Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'r angen presennol ac yn y dyfodol. Er hynny, dylai effaith bosibl y Metro a blaenoriaethau eraill y Cyngor gael eu cynnwys wrth ystyried unrhyw ymyriadau hirdymor

#### Yr hyn y buom yn chwilio amdano

13 Buom yn chwilio am dystiolaeth o:

- ddealltwriaeth drylwyr o'r anghenion presennol a hirdymor, a'r heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â nhw;
- cynllunio dros gyfnod priodol;
- adnoddau a ddyrennir er mwyn sicrhau manteision hirdymor; a
- monitro ac adolygu priodol.

14 Llywiwyd ein harchwiliad hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer yr 'hirdymor' yr ydym wedi eu nodi a'u ddefnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[2]

#### Yr hyn a ganfuwyd gennym

15 Nodwyd y cryfderau canlynol gennym:

- defnydd da o ddata modelu sy'n edrych ar sut y bydd ymyriadau yn y dyfodol yn effeithio ar ansawdd aer ac effeithiau economaidd;
- agenda teithio cynaliadwy sydd wedi ei phennu yng nghyd-destun dyheadau hirdymor, newid ymddygiad a chynllunio;
- enghreifftiau o lwyddiannau cyfredol o ran ei dull o weithredu i ddiogelu dulliau teithio llesol a chynaliadwy at y dyfodol;
- Arolwg Trafnidiaeth Blynyddol ar wahân a ddefnyddir i ddatblygu dealltwriaeth y Cyngor o'r anghenion, risgiau a thueddiadau presennol ac yn y dyfodol; a
- dygir datblygwyr i gyfrif o ran darparu dulliau teithio mwy cynaliadwy.

16 Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

- dylai cymariaethau â dinasoedd eraill ac eglurder ynghylch atebion cenedlaethol a rhyngwladol fod yn fwy eglur o ran datblygu atebion cynaliadwy hirdymor;

[2] Gweler Atodiad 1

- mynegi'r cyd-ddibyniaethau'n llawn rhwng y cynlluniau trafnidiaeth gynaliadwy hirdymor ar gyfer y Ddinas a rhoi'r Metro ar waith yn llwyddiannus; ac
- ystyried pa mor dda y mae penderfyniadau pennu cyllidebau hirdymor yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Cyngor, megis yr effaith ar deithio cynaliadwy.

## Mae gweithgarwch atal yn ganolog i'r Papur Gwyrdd ac mae targedau wedi eu sefydlu i fonitro effaith atebion ac ymyriadau ataliol

### Yr hyn y buom yn chwilio amdano

17 Buom yn chwilio am dystiolaeth o:

- ddealltwriaeth drylwyr o natur a math o broblem y gallai'r cam helpu i'w hatal rhag codi neu waethygu;
- adnoddau a ddyrennir er mwyn sicrhau y caiff buddion ataliol eu darparu; a
- monitro ac adolygu pa mor effeithiol yw'r cam o ran atal problemau rhag codi neu waethygu.

18 Llywiwyd ein harchwiliad hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'atal' yr ydym wedi eu nodi a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[3]

### Yr hyn a ganfuwyd gennym

19 Nodwyd y cryfderau canlynol gennym:

- Mae'r Cyngor wedi ymrwymo adnoddau er mwyn cyflawni mathau mwy cynaliadwy o drafnidiaeth yn y Ddinas a'r cyffiniau er mwyn atal marwolaethau oherwydd ansawdd aer gwael ac atal tagfeydd ar y ffyrdd a'r effaith ar ddatblygu economaidd;
- Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth glir o'r materion iechyd cyhoeddus ac effaith tymor hwy newid yn yr hinsawdd ar iechyd y gellid eu hatal drwy ganolbwyntio ar deithio iach a llesol; ac
- mae targedau i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol ansawdd aer gwael, sy'n deillio o dagfeydd, wedi eu sefydlu yng Nghynllun Llesiant Caerdydd, a fydd yn cael ei fonitro yn flynyddol.

20 Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

- blaenoriaethu datblygiadau yn raddol, megis llwybrau beicio, lonydd bysiau a thrafnidiaeth gyhoeddus gynaliadwy yn ddigon cynnar wrth adeiladu datblygiadau tai newydd er mwyn atal dibyniaeth ar ddefnyddio ceir o'r cychwyn cyntaf;

[3]Gweler Atodiad 1

- targedu gweithgarwch atal yn ardaloedd y ddinas lle mae ansawdd yr aer ar ei waethaf; ac
- archwilio cryfder yr ystod o fesurau a ddefnyddir ar hyn o bryd i fonitro effaith ei ymyriadau teithio cynaliadwy ac ansawdd aer glân.

## Mae’r egwyddor datblygu cynaliadwy yn cael ei hintegreiddio’n glir ym mlaenoriaethau polisi’r Cyngor, sy’n canolbwyntio ar faterion iechyd cyhoeddus hanfodol ac atebion trafnidiaeth gynaliadwy, ond mae lle i gryfhau ei dull o integreiddio, er enghraifft, gyda chynghorau cyfagos

### Yr hyn y buom yn chwilio amdano

21 Buom yn edrych am dystiolaeth fod y canlynol yn cael eu hystyried:

- sut y gallai’r cam hwn gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol;
- sut y bydd cyflawni’r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant a blaenoriaethau ehangach y Cyngor; a
- sut y bydd cyflawni’r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.

### Yr hyn a ganfuwyd gennym

22 Nodwyd y cryfderau canlynol gennym:

- ceir integreiddio clir ar lefel polisi rhwng Uchelgais Prifddinas, Cynllun Corfforaethol y Cyngor, Nodau Cenedlaethol, Amcanion Llesiant lleol a Chynllun Ardal Caerdydd a’r Fro i sicrhau y bydd ‘newid i ddulliau mwy cynaliadwy o drafnidiaeth’;
- sefydlwyd Grŵp Strategaeth Aer Glân y Cabinet i sicrhau dull integredig o ymdrin â’r mater ar draws gweithgareddau’r Cyngor;
- integreiddio agenda twf Cynllun Datblygu Lleol i ganolbwyntio ar gymunedau a gwell seilwaith i alluogi teithio cynaliadwy a sicrhau rhaniad moddol; a
- gweithio gydag ysgolion yn weithredol er mwyn annog teithio llesol.

23 Nodwyd y meysydd canlynol i’w gwella:

- nid yw’n glir sut mae Caerdydd wedi integreiddio ei gynlluniau trafnidiaeth â chynghorau cyfagos i leihau’r niferoedd sy’n teithio i’r Brifddinas mewn car;
- mae dibyniaeth ar y Metro yn dod â heriau o ran trefnu ac integreiddio cynlluniau yn y tymor hir; a
- sicrhau bod cynlluniau seilwaith hirdymor eraill megis coridor y de-ddwyrain yn cael eu hintegreiddio.

24 Llywiwyd ein harchwiliad hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer ‘integreiddio’ yr ydym wedi eu nodi a’u defnyddio fel rhan o’r archwiliad hwn.[4]

## Mae’r Cyngor yn cydweithio â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus partner er mwyn datblygu atebion hirdymor ar gyfer teithio llesol ac iechyd y cyhoedd. Byddai’r Cyngor yn elwa ar gyflwyno dull gweithredu tebyg o ran cydweithio â Chynghorau Prifddinas-Ranbarth eraill

### Yr hyn y buom yn chwilio amdano

25 Buom yn chwilio am dystiolaeth bod y Cyngor:

- wedi ystyried sut y gallai weithio gydag eraill i gyflawni’r cam (er mwyn bodloni ei amcanion llesiant, neu gynorthwyo corff arall i fodloni ei amcanion llesiant);
- yn cydweithio’n effeithiol i gyflawni’r cam; ac
- yn monitro ac yn adolygu a yw’r cydweithrediad yn ei helpu, neu yn helpu ei randdeiliaid, i fodloni amcanion llesiant.

### Yr hyn a ganfuwyd gennym

26 Nodwyd y cryfderau canlynol gennym:

- mae cydberthnasau cadarn a datblygedig â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus partner wedi arwain at gytundebau blaengar ac arloesol gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus partner er mwyn sefydlu targedau teithio llesol sefydliadol;
- cydnabyddiaeth o oblygiadau iechyd ehangach ansawdd aer gwael a chydweithio aeddfed ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i sefydlu’r dystiolaeth a chreu ymyriadau mewn dull cyd-gynhyrchiol; a
- chydweithio â Trafnidiaeth Cymru i ystyried a chydweithio ar atebion trafnidiaeth gynaliadwy gyda Llywodraeth Cymru.

27 Nodwyd y meysydd canlynol i’w gwella:

- mae swyddogaeth Awdurdod Trafnidiaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn dal i ddatblygu.
  Mae angen i’r Cyngor adeiladu ar y trefniadau rhanbarthol hyn sy’n dod i’r amlwg fel ffordd o sicrhau bod cydweithio â chynghorau Prifddinas-Ranbarth eraill yn mynd i’r afael ag effaith tagfeydd ceir yn effeithiol;

[4] Gweler Atodiad 1

- dylai cyfraniad iechyd y cyhoedd barhau yn ystod y broses o ddatblygu'r Papur Gwyn;
- gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i weld sut y gallant gyfrannu at y Weledigaeth Trafnidiaeth ac Aer Glân; ac
- mae swyddogaeth Awdurdod Trafnidiaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn dal i ddatblygu.

28 Llywiwyd ein harchwiliad hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'cydweithio' yr ydym wedi eu nodi a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[5]

## Proses ymgynghori helaeth, annibynnol a ariannwyd yn dda, gydag ymateb sylweddol i'r 'Syniadau Mawr'. Er hynny, mae lle i gynnwys holl amrywiaeth y dinasyddion yn fwy eglur wrth gynllunio ymyriadau

### Yr hyn y buom yn chwilio amdano

29 Buom yn chwilio am dystiolaeth bod y Cyngor wedi:

- nodi pwy y mae angen iddo eu cynnwys wrth gynllunio a chyflawni'r cam;
- cynnwys rhanddeiliaid allweddol yn effeithiol wrth gynllunio a chyflawni'r cam;
- defnyddio canlyniadau'r cyfranogiad i lywio'r gwaith o gynllunio a chyflawni'r cam; ac wedi
- ceisio dysgu gwersi a gwella ei ddull o gynnwys.

### Yr hyn a ganfuwyd gennym

30 Nodwyd y cryfderau canlynol gennym:

- mae'r Cyngor wedi comisiynu ymgynghorwyr Datblygu Cynaliadwy 'Cynnal Cymru' i baratoi a hwyluso ymgysylltiad yn annibynnol;
- ymgysylltiad gweithredol ag ysgolion a sefydliadau addysg, o ran dylanwadu a newid ymddygiad ac o ran llunio cynlluniau teithio llesol; a
- defnydd helaeth o gyfryngau cymdeithasol i dynnu sylw at dagfeydd, ansawdd aer ac effeithiau lliniaru a'u dosbarthu'n electronig i Banel Dinasyddion Caerdydd (oddeutu 6,000 o aelodau).

31 Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

- sicrhau y byddai holl amrywiaeth y dinasyddion yn rhan o'r gwaith o gynllunio'r ymyriadau a'r ffactorau lliniaru aer glân;

[5]Gweler Atodiad 1

- cyfleoedd i sicrhau bod holl amrywiaeth y rhanddeiliaid yn cael eu cynrychioli. Mae lle i ymgysylltu â grwpiau megis grwpiau nam ar y clyw/colli clyw a gyrwyr tacsi. A
- chyfleoedd i gynnwys dinasyddion ar lefel leol wrth gyd-gynhyrchu a chynllunio ymyriadau.

# Rhan Dau: Ymateb Cyngor Caerdydd

32 Ar ôl i'n gwaith maes ddod i ben, fe wnaethom gyflwyno ein canfyddiadau i'r Cyngor mewn gweithdy ar 31 Mai 2019 gydag uwch swyddogion Arolygiaeth Cynllunio Trafnidiaeth a'r Amgylchedd, swyddogion â chyfrifoldebau dros Ymchwil Cyfathrebu a Pholisi a chynrychiolydd o iechyd y cyhoedd yn bresennol. Yn y gweithdy hwn, dechreuodd y Cyngor ystyried ei ymateb i'n canfyddiadau ac ar ôl trafod yn y gweithdy a myfyrio ymhellach ar ein canfyddiadau, mae'r Cyngor wedi datblygu'r camau canlynol.

Arddangosyn 2: Camau Gweithredu Cyngor Caerdydd, Mehefin 2019

| Maes Datblygu | Ymateb y Rheolwyr | Tîm/Swyddog Cyfrifol | Dyddiad Cyflawni Cytunedig |
|---|---|---|---|
| **Tymor Hir –** Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'r angen presennol a'r angen yn y dyfodol. Er hynny, dylai effaith bosibl y Metro a blaenoriaethau eraill y Cyngor gael eu cynnwys wrth ystyried unrhyw ymyriadau hirdymor. | Meincnodi atebion trafnidiaeth â dinasoedd cenedlaethol a rhyngwladol. | Tîm Polisi Trafnidiaeth | Parhaus |
| | Mynegi'n llawn yn y Papur Gwyn y gyd-ddibyniaeth rhwng y cynlluniau trafnidiaeth hirdymor ar gyfer y Ddinas a rhoi'r Metro ar waith yn llwyddiannus. | Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd | Medi 2019 |
| | Gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Dinas-Ranbarth Caerdydd a phartneriaid a gefnogir gan arian cyfatebol Cyngor Caerdydd i sicrhau buddsoddiad hirdymor mewn gweithgareddau a mentrau i newid ymddygiad teithio cynaliadwy. | Timau Trafnidiaeth | Parhaus |

| Maes Datblygu | Ymateb y Rheolwyr | Tîm/Swyddog Cyfrifol | Dyddiad Cyflawni Cytunedig |
|---|---|---|---|
| **Integreiddio -** Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn cael ei hintegreiddio'n glir ym mlaenoriaethau polisi'r Cyngor, sy'n canolbwyntio ar faterion iechyd cyhoeddus hanfodol ac atebion trafnidiaeth gynaliadwy, ond mae lle i gryfhau ei ddull o integreiddio, er enghraifft, gyda chynghorau cyfagos | Sicrhau bod y Papur Gwyn yn nodi'n glir y bydd cynlluniau trafnidiaeth Dinas-Ranbarth Caerdydd a chenedlaethol yn dibynnu ar ei gilydd er mwyn lleihau teithiau gyda char i mewn i Gaerdydd.<br><br>Sicrhau bod y Papur Gwyn yn benodol ynghylch sut y caiff dyheadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol eu cefnogi a sut y caiff y pum ffordd o weithio eu cymhwyso.<br><br>Adeiladu ar drefniadau llywodraethu dinas-ranbarthol sy'n datblygu, gyda Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol, er mwyn cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer buddsoddi mewn trafnidiaeth a defnydd tir yn y Prifddinas-Ranbarth. | Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd<br><br>Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd<br><br>Timau Trafnidiaeth | Medi 2019<br><br>Medi 2019<br><br>Parhaus |
| **Cyfranogiad –** Proses ymgynghori helaeth, annibynnol a ariannwyd yn dda, gydag ymateb sylweddol i'r 'Syniadau Mawr'. Er hynny, mae lle i gynnwys holl amrywiaeth y dinasyddion yn fwy eglur wrth gynllunio ymyriadau. | Creu cyfleoedd i holl amrywiaeth y rhanddeiliaid a grwpiau na chynrychiolir yn ddigonol i gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio ymyriadau trafnidiaeth.<br><br>Sefydlu prosesau cynllunio ailadroddol sydd wedi eu haddasu ar gyfer cyd-gynhyrchu cynlluniau a mentrau trafnidiaeth sy'n cynnig cyfleoedd i gynnwys dinasyddion. | Timau Trafnidiaeth<br><br>Timau Trafnidiaeth | Parhaus<br><br>Parhaus |

| Maes Datblygu | Ymateb y Rheolwyr | Tîm/Swyddog Cyfrifol | Dyddiad Cyflawni Cytunedig |
|---|---|---|---|
| **Cydweithio –** Mae'r Cyngor yn cydweithio â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus partner er mwyn datblygu atebion hirdymor ar gyfer teithio llesol ac iechyd y cyhoedd. Byddai'r Cyngor yn elwa ar gyflwyno dull gweithredu tebyg o ran cydweithio â Chynghorau Prifddinas-Ranbarth eraill. | Adeiladu ar drefniadau llywodraethu dinas-ranbarthol sy'n datblygu, gyda Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru i alluogi newid moddol, gan fanteisio ar fuddsoddiadau Metro Caerdydd.<br><br>Edrych ar gyfleoedd i adeiladu ar y berthynas bresennol gyda Cyfoeth Naturiol Cymru drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, y Fforwm Ansawdd Aer a'r Rhaglen Monitro Ysgolion.<br><br>Parhau i weithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystod y broses o baratoi'r Papur Gwyn. | Timau Trafnidiaeth<br><br>Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd a Thimau Trafnidiaeth<br><br>Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd | Parhaus<br><br>Parhaus<br><br>Parhaus |
| **Atal –** Mae gweithgarwch atal yn ganolog i'r Papur Gwyrdd ac mae targedau wedi eu sefydlu i fonitro effaith atebion ac ymyriadau ataliol. | Paratoi strategaeth fonitro sy'n nodi effeithiolrwydd teithio cynaliadwy ac ymyriadau ansawdd aer ac sy'n mesur yr amrywiant a'r cywirdeb yn y mesurau.<br><br>Parhau i gynllunio a monitro'r gwaith o flaenoriaethu ymyriadau trafnidiaeth gynaliadwy yn raddol ar gyfer datblygiadau newydd er mwyn atal dibyniaeth ar ddefnyddio ceir o'r cychwyn cyntaf.<br><br>Parhau i dargedu ymyriadau teithio cynaliadwy a llesol lle mae ansawdd yr aer ar ei waethaf.<br><br>Ehangu negeseuon sy'n datgan mai manteision i iechyd a'r amgylchedd yw'r sail resymegol allweddol dros newid moddol. | Timau Trafnidiaeth<br><br>Timau Trafnidiaeth a Chynllunio<br><br>Timau Trafnidiaeth<br><br>Tîm Cyfathrebu a Chyfryngau/Timau Trafnidiaeth | Medi 2019<br><br>Parhaus<br><br>Parhaus<br><br>Parhaus |

33 Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor o ran gweithredu’r camau hyn, ac i ba raddau y maent yn mynd i’r afael â’r materion a nodwyd gennym yn ein canfyddiadau.

# Atodiad 1

## Dangosyddion Cadarnhaol y Pum Ffordd o Weithio

Mae'r tabl isod yn nodi 'dangosyddion cadarnhaol' ar gyfer pob un o'r pum ffordd o weithio a nodwyd gennym ac y byddwn yn eu defnyddio i helpu i lywio ein hasesiadau o'r graddau y gallai cyrff fod yn cymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy. Nid ydym ni'n bwriadu defnyddio'r dangosyddion fel 'rhestr wirio'. Dylid eu hystyried yn 'ddangosyddion' a fydd yn ein helpu i ddod i gasgliadau, yn hytrach nag i benderfynu i ba raddau y mae corff yn gweithredu yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

Arddangosyn 3: Dangosyddion Cadarnhaol y Pum Ffordd o Weithio

| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd hirdymor o weithio'n llwyr?** |
|---|
| • Mae dealltwriaeth glir o'r hyn a olygir gan 'hirdymor' yng nghyd-destun y Ddeddf.<br>• Maent wedi cynllunio'r cam i gyflawni'r amcan(ion) llesiant ac yn cyfrannu at eu gweledigaeth hirdymor.<br>• Maent wedi cynllunio'r cam er mwyn cyflawni manteision byrdymor neu dymor canolig sy'n cael eu cydbwyso â'r effaith hirdymor (yng nghyd-destun y prosiect).<br>• Maent wedi cynllunio'r cam yn seiliedig ar ddealltwriaeth soffistigedig o'r angen a'r pwysau presennol ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddiad o dueddiadau yn y dyfodol.<br>• O ganlyniad, ceir dealltwriaeth gynhwysfawr o risgiau a chyfleoedd presennol ac yn y dyfodol.<br>• Mae adnoddau wedi eu dyrannu i sicrhau y darperir manteision hirdymor yn ogystal â thymor byr.<br>• Canolbwyntir ar gyflawni canlyniadau, gan nodi cerrig milltir/camau cynnydd lle bydd canlyniadau'n cael eu cyflawni yn yr hirdymor.<br>• Maent yn agored i ffyrdd newydd o wneud pethau a allai helpu i sicrhau manteision yn y tymor hwy.<br>• Maent yn gwerthfawrogi gwybodaeth ac yn mynd ar drywydd dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd ataliol o weithio'n llwyr?** |
| • Mae'r corff yn ceisio deall achosion sylfaenol problemau fel y gellir mynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau rhwng y cenedlaethau.<br>• Mae'r corff yn gweld heriau o safbwynt system gyfan, gan gydnabod a gwerthfawrogi'r manteision hirdymor y gallant eu sicrhau i bobl a lleoedd.<br>• Mae'r corff yn dyrannu adnoddau ar gyfer camau ataliol sy'n debygol o gyfrannu at well canlyniadau a defnydd o adnoddau yn y tymor hwy, hyd yn oed pan fydd hyn o bosibl yn cyfyngu ar y gallu i ddiwallu rhai anghenion byrdymor.<br>• Ceir trefniadau gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd sy'n cydnabod gwerth camau ataliol ac sy'n derbyn gostyngiadau byrdymor mewn perfformiad ac adnoddau wrth fynd ar drywydd gwelliannau a ragwelir o ran canlyniadau a'r defnydd o adnoddau. |

| Beth fyddai'n dangos bod gan y corff ddull gweithredu 'integredig'? |
| --- |
| • Mae unigolion ar bob lefel yn deall beth yw eu cyfraniad o ran cyflawni'r weledigaeth a'r amcanion llesiant.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn deall yr hyn y mae gwahanol rannau o'r sefydliad yn ei wneud ac yn mynd ati i chwilio am gyfleoedd i weithio ar draws ffiniau sefydliadol. Ailadroddir hyn yn eu gwaith gyda chyrff cyhoeddus eraill.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn cydnabod y dibyniaethau traws-sefydliadol wrth gyflawni'r uchelgais a'r amcanion.<br>• Ceir diwylliant agored lle bo gwybodaeth yn cael ei rhannu.<br>• Ceir dealltwriaeth ddatblygedig o sut y mae'r amcanion llesiant a'r camau i'w cyflawni yn effeithio ar gyrff eraill yn y sector cyhoeddus.<br>• Mae unigolion yn gweithio'n rhagweithiol ar draws ffiniau sefydliadol i gyfrannu cymaint â phosib ar draws y nodau llesiant gan leihau effeithiau negyddol.<br>• Mae strwythurau a phrosesau llywodraethu yn cefnogi hyn, felly hefyd ymddygiadau. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cydweithio'n effeithiol?** |
| • Mae'r corff yn canolbwyntio ar le, cymuned a chanlyniadau yn hytrach na ffiniau sefydliadol.<br>• Mae gan y corff ddealltwriaeth dda o amcanion partneriaid a'u cyfrifoldebau, sy'n helpu i sbarduno gweithgarwch cydweithredol.<br>• Mae gan y corff berthynas gadarnhaol ac aeddfed â rhanddeiliaid ac mae gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Mae'r corff yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau y gall pob partner eu gwneud.<br>• Mae'r corff yn ceisio sefydlu prosesau a ffyrdd o weithio a rennir, pan fo hynny'n briodol. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cynnwys pobl yn effeithiol?** |
| • Bod â dealltwriaeth o bwy sydd angen cymryd rhan a pham.<br>• Myfyrio ar ba mor dda y deellir yr anghenion a'r heriau y mae'r bobl hynny'n eu hwynebu ar hyn o bryd.<br>• Gweithio'n gydgynhyrchiol, gweithio gyda rhanddeiliaid i gynllunio a chyflawni.<br>• Gweld safbwyntiau rhanddeiliaid fel ffynhonnell hanfodol o wybodaeth a fydd yn helpu i gyflawni gwell canlyniadau.<br>• Sicrhau bod holl amrywiaeth y rhanddeiliaid yn cael ei chynrychioli a'u bod nhw'n gallu cymryd rhan.<br>• Bod â pherthynas aeddfed sy'n llawn ymddiriedaeth gyda'i randdeiliaid lle bo deialog a gwybodaeth yn cael eu rhannu'n barhaus mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall effaith eu cyfraniad.<br>• Gofyn am sylwadau gan randdeiliaid allweddol a ddefnyddir i helpu i ddysgu a gwella. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru